# YR ANGOR

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION

'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 37. RHIF 10 MAWRTH 2016 50c


# Gwasanaeth am Undeb Cristnogol ym Mossley Hill, Lerpwl

Yr oedd Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl yn llawn ar gyfer gwasanaeth yn ystod wythnos o weddi am undeb Cristnogol. Canolbwyntiodd y Parch. Ddr. Athro D. Ben Rees ei bregeth ar rannau o Llythyr cyntaf Pedr, pennod 2 ac Efengyl Matthew, pennod 5 gan herio ni i gredu nad oes y fath beth â Christion cyffredin. Rydym wedi cael ein dewis gan Dduw, yr ydym yn sanctaidd ac ystyr y gair 'sanctaidd' yw bod yn wahanol. Rydym wedi ein galw i fod yn Halen a Golau y ddaear – i dystiolaethu yn ein cymunedau am yr Efengyl a'r newyddion o obaith sydd ynddi.



*Dr. D. Ben Rees yn eu bulpud*



*Cynrychiolwyr Naw Eglwys*



*Cymdeithasu ar ôl yr oedfa*

Daeth cynrychiolwyr o'r Eglwysi i gynnau cannwyll o'r fflam ganolog fel arwydd o'r ymrwymiad fod pob eglwys yn aelod o 'Eglwysi Ynghyd ym Mossley Hill'. Casglwyd £ 211.55 yn y gwasanaeth i'w ychwanegu at y £1750 sydd eisioes wedi ei anfon i Gaerdydd gan Eglwysi a Chymdeithasau Cymraeg Glannau Mersi tuag at Apêl y Llywydd i Ysbyty Shillong. **(https://www.youtube.com/watch?v=zTY8cktEGsQ).**

***John Williams, Bethel, Lerpwl***


## YN Y RHIFYN HWN:

COFFÂD I HYWEL WYN JONES,
EDNA JONES, WRECAM
NEWYDDION BETHEL, BETHANIA,
SEION, CYMRY LERPWL,
CYMRY BIRKENHEAD.
TUDALEN I BASIO AMSER.
HUNANGOFIANT BRIAN THOMAS.
HWNT AC YMA

Golygyddol

# PAM, O PAM? – gan D. Ben Rees

Gair bach yw **Pam** ond mae'n llefaru yn huawdl ac yn anaml y cawn unrhyw fath o atebiad. Y tro hwn yr wyf am ofyn Pam, o leiaf ddwsin o weithiau i brofi'r pwynt!! Pam fod seneddwyr San Steffan mor jingoistaidd ar fater bomio pentrefi, trefydd a dinasoedd Syria a Irac lle llecha y terfysgwyr creulon? Pam fod Ymddiriedolaeth Betsi Cadwaladr mor aneffeithiol yn gofalu ar ôl Ysbytai mawr Penrhosgarnedd, Bangor; Ysbyty Bodelwyddan a Ysbyty Maelor, Wrecsam? Pam fod yr Albanwyr wedi colli eu pennau'n llwyr mewn amser mor fyr dros y SNP? Pam fod yr Almaen wedi bod mor groesawgar i'r ffoaduriaid tra bod y wlad drws nesaf Denmarc mor wahanol? Pam fod arweinwyr gwledydd y byd yn cael eu temtio yn gyson i elwa ar ei statws a llenwi eu pocedi ag adnoddau, arian a ddylai fod at wasanaeth ei dinasyddion?

Pam fod pob awdurdod lleol ym Mhrydain yn gweithredu polisïau o dorri i lawr gofal am y bobl tra mae Canghellor y Trysorlys yn benthyca mwy na hyd yn oed ei raglfaenwyr oedd mor afrdalon? Pam fod S4C yn rhoddi cymaint o sylw i ffermio a rygbi ag mor ychydig i grefydd gyfundrefnol? Pam fod S4C trwy gwmni Avanti yn gwrthod dod i Lerpwl i recordio rhaglen *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*? Pam fod y Parchedig Felix Aubel yn barod i sefyll fel Ymgeisydd y Blaid Geidwadol yng Ngheredigion? Pam fod dynion a merched cyhyrog o Brydain yn gwrthod cyflawni gwaith 'caib a rhaw' tra bod pobl o wlad Pwyl, Romania, Bwlgaria yn barod i wneud hynny? Pam na fyddai Cymry Glannau Mersi yn trefnu Un Cinio Gŵyl Ddewi ar raddfa fawr yn hytrach na dau gyfrafod ar wahân?

Pam, o pam yw hi o hyd yn rhywle. A dyma'r Pam olaf – Pam na fydd neb o ddarllenwyr ***Yr Angor*** yn ymateb yn 'Taro Post' i unrhyw un o'r Pam's uchod.

***Coffâd***

# HYWEL WYN JONES, CILGWRI

**(1932-2015)**

**Wedi llawenhau wrth ei weld yn cryfau a gwella wedi triniaeth, brawychwyd ni oll ar y Glannau wrth glywed am farwolaeth annisgwyl Mr Hywel Jones yn ysbyty Arrowe Park ar 16 Rhagfyr. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'i wraig Alice, ei ferched Ceri, Bethan a'r teuluoedd yma ac yng Nghymru. Bu angladd Hywel yn Landican, Penbedw ar Ionawr 4 ydd mewn capel orlawn, ffarwel teilwng i ŵr arbennig iawn.**

**Ganwyd Hywel, y ieuengaf o chwech o blant mewn tyddyn ar ochr Craig y Garn, yn Garndolbenmaen. Arwyddwr yng ngorsaf Bryncir oedd ei dad ond o ganlyniad i anafiadau yn y Rhyfel Byd Cyntaf, nid oedd mewn iechyd da. Penderfynodd y teulu symud i bentref Bryncir er mwyn hwyluso ei ddiwrnod gwaith. Yn anffodus bu farw ei dad, yn 38 oed, wedi llawdriniaeth yn Lerpwl cyn iddo fedru symud i'r cartref newydd. Ychydig o gof oedd gan Hywel o'i dad ond edmygodd yn arw, cryfder a dewrder ei fam wrth iddi fagu y teulu. Cawsant blentyndod hapus a sefydlog, diolch i ymroddiad a chariad Mam arbennig iawn, a fu fyw hyd 93 oed.**

**Fel amryw o deuluoedd gwledig yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd ganddynt ddarn o dir i gadw buwch, ieir, a gwyddau ac er gwaethaf cyfyngiadau yr amser, llwyddodd y fam i gadw'r teulu yn iach a chysurus. Cerddodd Hywel dros y caeau ym mhob tywydd i ysgol Garn, cyn symud i ysgol Ramadog Penygroes lle cafodd yrfa ddisglair a lle yr amlygwyd ei lais cryf a'i dalent cerddorol. Daeth yn boblogaidd fel enillydd mewn eisteddfodau lleol, a bu galw amdano fel unawdydd. Wedi cwblhau cwrs yn y Coleg Normal, daeth Hywel, gyda llawer o ieuenctid Cymru, i ddysgu yn Lerpwl yn Ysgol Stockton Wood Road, Speke. Ar ei Sadwrn cyntaf yn Lerpwl cyfarfyddodd ag Alice mewn caffi, ac wedi hynny mewn cyfarfod o "Young Wales". Mhen dwy flynedd, yn 1956 Hywel ac Alice oedd y cwpl cyntaf i briodi yng nghapel M.C. Stanley Road, Bootle.**

**Treuliodd Hywel ddeuddeg mlyedd yn dysgu mewn ysgolion eilradd fodern mewn ardaloedd digon anodd yn Lerpwl, cyn newid ei gwrs i ysgolion cynradd ac yno, daeth i feddwl y byd o blant ifanc Lerpwl a chael effaith cofiadwy arnynt. Yn 1969 aeth fel dirprwy brifathro yn St. Saviour's am bum mlynedd ac oddiyno fel prifathro yn ysgol Pleasant Street, lle treuliodd un flwyddyn ar bymtheg cyn ymddeol yn 1990.**

**Dyma ddyfyniad o deyrnged Dafydd Sheldon Roberts, cynghorwr gyda ysgolion cynradd awdurdod addysg Lerpwl, i Hywel fel athro a phrifathro. Soniai am gyfarfod i drafod ad-drefnu ysgolion y ddinas.**

> **"Aeth y cyfarfod yn swnllyd a llawer o'r rhieni yn flin a chas gydag un fam yn cega mewn iaith anweddus dros ben. O'r llwyfan daeth llais Cymraeg dwfn a chlir, 'that's enough Mary'. Adnabu'r llais ar unwaith, ac o'r distrawrwydd a ganlynodd ei dicter, clywsant, 'Sorry Mr Jones, I got a bit carried away there' – ac eisteddodd Mary yn dawel. Nid oedd gwell esiampl o barch ac edmygedd y gymuned at eu prifathro. I'w gydweithwyr yn Awdurodod Addysg Lerpwl, cofio Hywel fel athro ysbrydoledig, prifathro ymroddedig a gŵr annwyl, hynaws: mor weddus i unigolyn felly fod yn bennaeth ar ysgol Pleasant Street !"**

**Er cymaint oedd ei fri ymysg addysgwyr Lerpwl a'r ysgolheigion, a' i boblogrwydd fel un o gewri Cymry'r Glannau, a'i lwyddiant fel canwr ac enillydd eisteddfodol, gwir falchder a chariad Hywel oedd yn ei deulu, Alice, Ceri, Bethan, eu teuluoedd a'r teulu yng Nghymru.**

**Ymhyfrydai yn ei gefndir, a'i Gymreictod a deil y cysylltiad rhyngddo a'i deulu yno yn gryf.**

**Hoffai gyfarfod â nhw wrth ymweld â'i chwaer Dora sydd mewn cartref yn yr ardal, a hel straeon ac atgofion. Drwy ymdrech ei nai, Dewi, mae tapiau o Hywel yn canu, bellach ar gof a chadw ar CD.**

**Cofion am Hywel gyda atgofion annwyl iawn – am ei wên parod, ei hiwmor garedig, a'i sgwrs rhwydd gartrefol. Bydd bwlch tywyll yn ein Cymdeithas lle bu yn seren ddisglair.**

**Eirwen Sergeant**

Myfyrdod Obadiah Jenkins

# Y BWRDD

gan Elwyn Parry

Roedd y Parch Obadiah Jenkins ymhell dros ei ddeg a thrigain pan ddaeth yn ôl i'w hen gynefin ar ôl bod yn weinidog yn Baltimore, Unol Daleithiau, am 45 mlynedd. Roedd wedi ymddeol ac wedi dod yn ôl at ei chwaer yn yr hen gartref. Wil John a groesawodd Obadiah yn ôl yn y Seiat ac yn eironig Wil John a ffarweliodd ag ef pan adawodd i fynd i'r Amerig. Teulu mawr ei parch ac yn gefn mawr i'r capel bach, yr hen Ezra Phillips yn Ysgrifennydd am dros hanner can mlynedd a'i fam yn tu hwnt o gariadus i bopeth yn yr eglwys. Y Sul canlynol gwahoddwyd Obadiah i wasanaethu y "Cymun Bendigaid" chwedl Wil John.

Da oedd ei weld yn y sêt fawr yn y Cymundeb yn edrych fel petasa erioed wedi bod i ffwrdd mor hir. Ei arddull o bregethu oedd i ddweud yn fyr a chryno lleoliad y testun a'i chefndir ac yna cymerai un gair a gwau'r bregeth o'i chwmpas. Ei destun oedd Luc pennod 22 ac adnod 22 a'r gair "bwrdd". Soniodd ar y cychwyn fod llwybrau'r gorffennol yn dod a phethau mawr bywyd atom a doedd dim byd mwynach yn bod. Y llef o'r "tu ôl" oedd yr huotlaf. Y cof yn cydio heddiw wrth ddoe ac yn gwneud bywyd yn gyfanwaith. Er y rhaniadau mewn Amser – eiliadau, munudau, oriau, dyddiau, wythnosau, misoedd a blynyddoedd – myn y cof wneud rhain yn un cyfanwaith ac ein hatgoffa o hyd ein bod yn llusgo'r gorffennol gyda ni ac ni allwn ymryddhau o'i chyfrifoldeb.

Soniodd mor angenrheidiol oedd bwrdd a gwahanol mathau ohonynt. Cofiai yn yr hen dŷ ffarm iddynt gael bwrdd hir newydd ac er yn blentyn fe cofiai fam tro ar ôl tro yn sgwrio'r bwrdd gyda brwsh bras a sebon coch!! Cofiai fam yn dod a bwyd i'r bwrdd – nid danteithion – ond bwyd plaen maethlon a digon ohono. Roedd yn fwrdd croesawgar a lle, rhag ofn i unrhyw un alw "ni wrthodwyd neb a ddaw" gan Mam.

Trodd Obadiah at fwrdd arall – "fy mwrdd i" – Frinds dim ond UN bwrdd sydd sef un Iesu Grist! !! Mae hwn yn hen ryfeddol wedi dod lawr trwy'r canrifoedd ond heb heneiddio. Y mae'n blaen iawn ac nid oes arno ond yr hanfodion ond mae ynddynt sef y bara a'r gwin digon o lawer i chi a minnau fyw yn dda, gwneud daioni ac i etifeddu'r bywyd tragwyddol Canys mae bwyta'r bara ac yfed y gwin yn arwyddo cymeryd y Crist i'ch bywyd. Wyddoch chi roedd Mam wastad yn cyplysu y bara a'r gwin gyda "ein bara beunyddiol" gwneud yn gyntaf ewyllys Ef a'r gwin yn rhoddi blas maddeuant ar y bara. Fe ellwch wneud heb ambell dodrefnyn ond mae'n rhaid cael bwrdd.

Gorffennodd trwy ofyn "Beth a ddatguddir ar y Groes?" Atebodd mewn hwyl – CARIAD—Beth yw ei fesur? Mae'n cwmpasu'r byd, y llinell cyhydedd ysbrydol sy'n parhau o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb. Fe'i groeshoeliwyd "a'i ddwylo pur ar led" ond fe ddaethant at ei gilydd i gofleidio holl ddynolryw. Deuwch ataf i bawb a diolch iddo am inni gael rhagflas yn Swper yr Arglwydd o dragwyddol wledd y Deyrnas, Amen.

# Sgwrsio a Dysgu Cymraeg yn Lerpwl

Oddi ar Nos Lun, 10 Ionawr 2016 bu hi yn gyffrous yng nghapel Bethel, Heathfield Road/Auckland Road Lerpwl gan y darperir dau ddosbarth ar gyfer pobl sydd yn dymuno dysgu a llefaru yr iaith Gymraeg. Awgrymodd Mr Farnworth, dysgwr ei hun, i Dr. D. Ben Rees am y posibilrwydd a thrafodwyd y cynllun yn drylwyr gyda'r blaenoriaid a phenderfnu trefnu ystafelloedd addas ar gyfer y rhai a fyddai'n dangos diddordeb.

Aethpwyd ati i hysbysebu yn *Yr Angor,* wefan Cymry Lerpwl, a pharatoi taflen i'w dosbarthu yn Llyfrgelloedd y ddinas. Adeg y Nadolig yr roedd yna 6 wedi dangos diddordeb! Cafodd Mike Farnworth gyfle i sôn am y Cynllun ar Radio BBC (Glannau Merswy) ar fore Llun, 10 Ionawr a syndod ar y mwyaf y noson gyntaf oedd croesawu 22 o unigolion a ddaeth ynghyd. Yr ail nos Lun cafwyd deunaw a'r trydydd Nos Lun 19, ac felly mae'n argoeli yn dda. Erbyn hyn trefnir dau grŵp – un yn sgwrsio a'i gilydd gan ei bod wedi cael llawer mwy o brofiad o lefaru'r iaith a'i chlywed, a'r grŵp arall sydd yn newydd i'r iaith yn trafod yr hanfodion. Ni chodir tâl ar neb ond disgwylir gyfraniad o bunt pan ddarperir te ar derfyn y Gymdeithas Lenyddol neu Cyfarfod Eglwysi neu Gyfarfod arbennig arall.

Daw y dysgwyr a Chymry Lerpwl i berthynas â'i gilydd dros y baned. Golyga hyn fod adeiladau Bethel fel cwch gwenyn, fel ag y digwyddodd ar Nos Lun, 25 Ionawr. Yr oedd 38 yn y ddarlith a 19 yn y dosbarthiadau Cymraeg, cyfanswm o 57 ar noson waith mewn capel Cymraeg dros y ffin. Dyna yn sicr rhywbeth i fod yn hynod o falch amdano.

Parhaed Bethel a Chynry Lerpwl i chwifio'r faner, siawns na ddaw cyn bo hir Menter Iaith Cymraeg Lerpwl neu yn sicr Menter Iaith Glannau Mersi gan fod Cymry Penbedw yn darparu yn dda. Rhwng Cymry Lerpwl a Chymry Penbedw y mae'r iaith i'w chlywed a'i anwylo.

***Cyfarfod Dosbarth Lerpwl o Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain***

CYFARFOD I LAWNSIO

Cyfrol Saesneg ar

***Hanes Dr. H. Gordon Roberts,***

## *Healer of Shillong*

***sylfaenydd Ysbyty Genhadol Gymreig***

**ar bnawn Llun, 22 Chwefror, 2016**
**am 1.30 o'r gloch y pnawn**
**yng nghapel Bethel, Heathfield Road, Lerpwl.**

*Llywydd:*
John P. Lyons, Bethania, Waterloo.

Bydd Arweinwyr yr enwad yn bresennol a gwerthir y gyfrol am £10 a bydd pob ceiniog yn mynd i Apêl bresennol Ysbyty Shillong.
Croeso i bawb. Darperir lluniaeth ar derfyn y cyfarfod.

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Collwyd aelod arall ym marwolaeth Mrs Megan Evans ar ôl cystudd hir. Bu hi a'i phriod yn aelodau ffyddlon, ond ar ôl ei golli, dirywiodd ei iechyd a bu'n rhaid treulio amser yn y Cartref Henoed. Cydymdeimlwn â'r mab yn ei hiraeth.

Gwelwn golli Mrs Dilys Askew o'n hoedfaon gan fod ei chlun ag angen triniaeth bellach. Cafodd driniaeth lawfeddyol 12 mlynedd yn ôl a bydd angen derbyn cymorth eto. Collwyd Mrs Eunice Powell o'n plith trwy afiechyd a deil Miss Megan Roberts i gryfhau. Bu yn yr oedfa yn diweddar a balch ydym o'i gweld. Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol o dan lywyddiaeth Miss Iris Hughes Jones, ac yr ydym yn falch fod popeth yn dderbyniol. Cawsom Seiat Ymweliad ar ran Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain a daeth y Parchedig Eleri Edwards a Mr. Elwyn Evans atom. Diolchgar ydym iddynt am ei harweiniad ac am yr adroddiad manwl a gyhoeddwyd yng nghofnodion Henaduriaeth Ionawr.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Blwyddyn Newydd Dda i chwi un ac oll. Mae rhywbeth reit gyffrous mewn cael byw i weld blwyddyn arall – mae 'na edrych yn ôl ar yr hen, a chael ail-gyfle i gychwyn o'r newydd, a gwneud yn fawr o bob diwrnod a ddaw.

Daeth cynulleidfa dda ynghyd ar y Sul cyntaf a'r oedfa o dan ofal ein gweinidog, y Parchedig Ddr. D. Ben Rees. Gweinyddwyd y sacrament o Swper yr Arglwydd, o dan ei ofal, dyma gychwyn yn y cywair priodol am 2016.

***Nos Lun, 4 Ionawr.*** Cynhaliwyd cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn, o dan nawdd y Gymdeithas Lenyddol. Rydym yn dal i gadw'r arferiad yma yn ninas Lerpwl. Mae yn gyfle i ni ddiolch am yr hyn a gafwyd, y gofal a'r cadw a fu arnom, ac i ofyn am nerth i gamu'n mlaen yn hyderus i'r newydd. Diolch i'r aelodau a gymerodd ran.

***Nos Lun, 11 Ionawr –*** Dyma fenter newydd ar ran yr Eglwys i roi cyfle i rai sydd am sgwrsio yn y Gymraeg i ddod at ei gilydd ar nos Lun am 7.30 i 8.30 o'r gloch. Ceir darpariaeth i ddod a wrando a siarad a phaned o de ar y diwedd. Cynhelir hyn ar nos Lun yn rheolaidd hyd y Pasg.

***Nos Lun, 18 Ionawr*** – Noson o'r Gymdeithas Lenyddol ar y thema 'Y briodas rhwng emyn a thôn'. Cyflwynwyd y ddau siaradwr gan y llywydd, Dr. D. Ben Rees, sef Mrs Rhiannon Liddell, un o organyddion yr eglwys a Mr. Ifor Griffith, arweinydd y gân yn ein plith. Gofidiai yn fawr i Miss Mair Powell fethu uno â'r ddau arall oherwydd ei gwendid ar ôl y ddamwain. Edrychwn ymlaen i'w chael yn ôl ar ôl iddi gryfhau yn ddigon da.

Troi at emynau Elfed wnaeth Rhiannon, a'i dewis cyntaf oedd "Arglwydd Iesu, dysg i'm gerdded", ar y dôn Rhondda.

Beth sydd yn gwneud priodas? Beth ddaw gynta, tôn i'r geiriau neu geiriau i'r dôn? Beth yw'r apêl, y cysylltiadau, y digwyddiadau? Pam y ceir rhai i glymu a phlethu'n well nag eraill? Dyma rai o'r cwestiynau y ceisiodd eu datrys. Cawsom gyfle i ganu dwy emyn o waith Elfed.

Yna Ifor, testun diddorol meddai ond nid un hawdd.

Mae'n rhaid i briodas rhwng emyn a thôn fod yn un agos, yn cyfleu darlun cynnes i'r briodas weithio. Mae amryw o emynau'r diwygiad yn rhai cryf a phwerus. Asiad perffaith yw "Dyma gariad fel y moroedd" o waith Gwilym Hiraethog ar y dôn Ebenezer neu i rai y dôn Pennant, Osborn Roberts. Emyn arall a gymerodd ei sylw "Pan fwyf yn teimlo'n unig lawer awr." Syniadau cryf ar dôn gyfarwydd Ellers.

Canwyd yr emynau o ddewis Ifor o dan ei arweiniad, a chyfeiliant Mrs Margaret A. Williams. Noson hwyliog ac addysgol gan ddau feistr ar y gwaith.

***Pnawn Sul, 22 Ionawr –*** Cafwyd gwasanaeth arbennig am bedwar o'r gloch ym Methel gan eglwsi Eciwmenaidd Mossley Hill ac Allerton. Roedd rhaglen ddwy-ieithog wedi ei pharatoi a'r cyfan o dan arweiniad ein gweinidog. Cymerwyd rhan gan aelodau o bob eglwys.

Roedd un gannwyll fawr yn olau gydol y gwasanaeth yn cydnabod Duw yn oleuni'r Byd. Yna cafwyd gweithred o ymrwymiad wrth i un aelod o bob eglwys oleuo cannwyll a'r fflam yn cydio o'r gannwyll ganolog i ddatgan ein bod yn unol yn ein cenhadaeth i fod yn halen ac yn oleuni. Gwasanaeth o ymgysegriad a'r awyrgylch yn gynnes a bendithiol. Cafwyd paned yn y ganolfan yn dilyn yr oedfa i sgwrsio ac i ddod i adnabod ein gilydd yn well.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Edna Jones, Tŷ Capel gynt. Bu hi a'i diweddar ŵr Elwyn yn gofalu am yr adeiladau a'r ardd am flynyddoedd maith. Roedd Edna o gymeriad hawddgar, yn barod ei chymwynas ac ar gael bob amser â'i gwên groesawgar.

Cydymdeimlwn â'u plant, Gwynfor, Bethan a Genys a'u teuluoedd. Bu gwasanaeth yr angladd yn amlosgfa Pentre Bychan, Wrecsam ddydd Gwener, Ionawr 22ain o dan ofal ein gweiniog, y Parchedig Ddr. D. Ben Rees, a cheir coffâd iddi yn y rhifyn hwn o'r *Angor.*

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Cawsom ran yn yr Oedfa Undebol ar Sul cyntaf y flwyddyn newydd, gyda ffrindiau Eglwys Crist yn estyn deheulaw cymdeithas i ni ar lwybr yr addoliad. Y Sul canlynol daeth ein Gweinidog a'i briod, Mrs Meinwen Rees i'n cynorthwyo yn oedfa Gymun. Braf oedd cael canu emynau Dechrau'r Flwyddyn a'r Cymun a bu canu clodwiw ar gyfieithiad y Parchedig John Gwilym Jones, y cyn-Archdderwydd, ar emyn Sydney Carter –

*Un cam bach ar hyd y byd yr af,*
*ar y daith o hyd dy gwmni gaf;*
*a thrwy bob yfory ddaw,*
*gan i minnau afael yn dy law*

Ac yna'r gytgan:

*Ac wrth fynd o ddoe i'r 'fory newydd draw,*
*gad i minnau afael yn dy law.*

Cyfoethogwyd ni ar y Sul nesaf o'r mis o dan weinidogaeth y cyn-Gaplan, Ms Rachel Gooding a fu mor ffyddlon i ni ar hyd y blynyddoedd. Y mae'r flwyddyn 2016 wedi agor y drysau yn dda i ni fel cymuned yng Ngogledd Lerpwl.

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Dechreuodd ail hanner ein tymor mewn awyrgylch trist iawn wedi marwolaeth Hywel, ein cyfaill a'n haelod ffyddlon a gweithgar. Bu Hywel yn llywydd a gymdeithas sawl tro, bu'n unawdydd ac aelod côr gwerthfawr a thalentog, bu'n ffrind annwyl a hynaws i bawb. Bydd bwlch tywyll lle bu o'n seren.

Ar ein rhan estynodd ein llywydd, y Parchedig Glenys Wilkinson ein cydymdeimlad ag Alice, Bethan, Ceri a'u teuluodd a chafwyd gair o ddiolch ganddynt am bob caredigrwydd.

I agor y tymor daeth Mr Cledwyn Thomas, Bromborough atom i'n difyrru gyda "Siwrne igam ogam drwy ganol Lerpwl". Peirianydd sifil yw Cledwyn, wedi darlithio yn Lerpwl am flynyddoedd ar ôl ei addysg yn Llanrwst, Coleg Technegol Wrecsam a Phrifysgol Abertawe. Mae wedi ymddiddori ym mhob agwedd o adeiladwaith a datblygiad Lerpwl dros y canrifoedd.

Blwyddyn yn ôl clywsom ganddo, hanes adeiladau cyfarwydd canol y ddinas gan ein dysgu i edrych i fyny a gweld

hanes mewn addurniadau uwch ein pennau. Eleni, gyda darluniau a mapiau ar y "power point" aeth â ni i ardaloedd allanol y ddinas a dangos cerfluniaeth sydd wedi eu symud neu ei chwalu er mwyn adeiladau modern – fel eiddo Nelson, Sior IIIydd. Tynnwyd ein sylw i gerfluniaeth cyfoesol, fel y "Pieta" yn yr Eglwys Gadeiriol Catholig, a'r ddau gyfaill, Shepherd a Warlock yn Hope St. Diddorol oedd clywed hanes adeiladau yr Eglwysi Cadeirol yn y mannau lle maent – nid hap a damwain – a'r trafodaethau a'u cynllunio. Ychydig a wyddom am William Pickles Hartley a'i ffatri jam yn Aintree, ei gyfraniadau helaeth i'r oriel Mr Walker, a'i ofal am dlodion yr ardal. Onibai am un o'r enw Henry Booth a'i waith ar "couplings" rhwng cerbydau trên, fyddai datblygiad "Rocket" Stephenson wedi arafu. Syndod oedd clywed hanes "Royal Deer Park of Toxteth", lle bu'n brenin Sion yn hela, (Sefton Park heddiw) ac mai "Townend Lane" oedd enw gwreiddiol Upper Parliament Street am mai yno 'roedd terfyn y dref.

Mae gwledd o gysylltiadau hanesyddol o'n cwmpas, a llawer iawn o gymeriadau allweddol yn hanes ein gwlad wedi eu geni yn Lerpwl. Diolch i Cledwyn Thomas am ein haddysgu. Gwnaed y diolchiadau gan Mike Storey un o'n dysgwyr, mewn Cymraeg cywir a hyderus. Beryl van Beek oedd yn cyfeilio, a Glenys yn llywyddu.

***Coffâd***

# Mrs Edna Jones, Wrecsam (gynt o Lerpwl)

**(1926-2015)**

**Teimlais chwithdod mawr pan ddaeth Mr. John Medwyn Jones ar y ffôn i'm hysbysu fod y chwaer annwyl a hoffus, Edna Jones wedi ein gadael a hithau o fewn tri mis i fod yn naw deg oed. Unig blentyn Margaret a Peter Jones, Pentrellyncymer ydoedd, ac yn Uwchaled y gwelodd olau dydd ar 18 Ebrill 1926, ac y cafodd yr hyfrydwch o fwynhau addysg ysgol a chapel, ac ar ôl unarddeg oed, yn nhref Rhuthun. Teithio o ymyl Cronfa Ddŵr Alwen bob dydd.**

**Treuliodd ei blynyddoed cynnar yng ngofal plant mewn cartrefi yn Lerpwl, Cilgwri ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ifaciwis yn Neuadd Pale yn Edeyrnion. Yr oedd wrth ei bodd, ond ar 20 Hydref 1948, priododd yng nghapel Cerrigydrudion gyda un o fechgyn Cymry Lerpwl, Elwyn Jones. Gadwodd Uwchaled am dref Caernarfon ac yno y ganwyd y mab Gwynfor a'r ddwy ferch Bethan a Glenys. Cysegrodd ei bywyd i'w magu yn y ffordd draddodiadol o ddwyn plant i lwybrau'r byd.**



**Derbyniodd Elwyn swydd bwysig ym myd gwerthu Cig yn Lerpwl a daeth y teulu i fyw yn ardal Springwood ac ymaelodi yng nghapel Heathfield Road. Galwn i'w gweld ar yr aelwyd a magwyd perthynas dda. Ar ôl deg mlynedd symudwyd yn ôl i Gymru, y tro hwn i ddinas Bangor ond daeth cyfle iddynt ddychwelyd i'r ddinas oedd mor hoff gan y ddau pan oedd angen ceidwaid y Capel arnom ym Methel. 1981 oedd blwyddyn olaf stiwardiaeth Elan ac R. E. Jones a chofiaf yn dda y cyfweliad am y swydd o Geidwaid. Cawsom bedwar ar y rhestr fer ac fel Cadeirydd y Panel yr oeddwn yn gwbl gysurus fy meddwl ein bod yn dewis y pâr gorau i swydd oedd yn golygu bod yn serchog a chyfeillgar ac yn barod i gydweithio gyda'r Gweinidog a'r blaenoriaid.**

**Daeth y teulu atom yng ngwanwyn 1982. Yr oedd y gwaith yn drwm, tri cyfarfod y Sul a chyfarfodydd bob nos o'r wythnos ar wahân i Nos Sadwrn, er fod aml i ddigwyddiad ar y diwrnod hwnnw hefyd. Fy mai i, rwy'n cyfaddef, oedd fod yr wythnos mor llawn, ond ni chwynodd Edna o gwbl. Daeth hi yn rhan allweddol o'r gweithgareddau, yn ganolog i ymdrech y Chwiorydd yn trefnu Ffair Nadolig lwyddiannus bob blwyddyn. Ceir cyfeiriadau cyson ati yn fy nghyfrolau ar Gapel Bethel. Gwelir dau lun ohoni, un gyda Janet Green, Wavertree (ffrind mawr iddi) a un yng ngardd y Tŷ Capel, gyda Dilys Grffiths, Megan Lewis, Eirlys Williams a Nan Evans (Garston y dyddiau hynny).**

**Deuai siaradwyr o fri, y BBC, partïon y Gorlan, ac yn 1986 gwariwyd dros £30,000 i harddu'r Capel, pob un o'r digwyddiadau hyn yn ychwanegu at waith y Ceidwaid. Bu yn driw, ffyddlon, yn fonheddig a gwerthfawr i'n cymuned. Yn niwedd 1998 (29/12/1998 a chofiaf yr alwad a gefais) bu farw Elwyn a gadael Edna i ddal i ofalu ar ôl ein buddiannau yn y Tŷ Capel. Yr oeddem wedi rhoddi cyfle i ferch ddawnus ddechrau Ysgol i blant, pedwar o blant i ddechrau, a dyfodd mewn amser i 150. Yr oedd Edna wrth ei bodd, cafodd hwb ardderchog yn nyddiau'r unigrwydd. Ar ôl 5 mlynedd a'r adeiladau i fod i'w dymchwel perswadiwyd hi i symyd i ymyl Glenys a Philip Davies yn Wrecsam. Bodlonodd a mwynhau 12 mlynedd yn nhref y ffin, yn falch o gael yr *Angor*, a'n gweld ninnau yn ein tro. Ni chollodd gefnogi pob oedfa a darlith a roddais yn Wrecsam yn y degawd diwethaf. Mynychodd ddosbarthiadau, cyfarfodydd, oedfaon Capel y Groes a Bethel, Garden Village a mwynhau ei theulu, yr wyrion a'r wyresau, Sarah (a'i gŵr James), Craig, Amy, Paul, Daniel, Kate (a'i gŵr Tobie), Ceri a Rhian (wyth ohonynt) a chwech o or wyrion a wyresau (Livvi, Belle, Jack, Heidi, Robin a Jack). Hwy oedd cynheiliaid gyda ei phlant ei hun. Hi oedd y Graig yn cadw pawb yn deulu mawr, braf. Cristion teyrngar, yn llawn o ffydd ydoedd, ac fe gofir amdani i'r dyfodol.**

**Bu'r arwyl o dan fy ngofal yn Amlosgfa Pentrebychan ar bnawn Gwener, 22 Ionawr a chynrychiolwyd Bethel gan Mrs Gwenfyl Bain, Mr a Mrs Siân Hartley, Trevor Green a Dr. John G. Williams. Daeth cynulleidfa gref ynghyd i dalu parch i wraig a wnaeth yn fawr o'i chyfle ac a adawodd enw da i berarogli.**

**D. Ben Rees**

# CYMDEITHAS CYMRY LERPWL



***Ocsiwn a'r Ocsiwniar***

Dechreuwyd ail hanner y tymor y Gymdeithas gyda ocsiwn yng nghartref John a Beryl Williams. Cafwyd digon o gyfle i gynnig am nwyddau amrywiol, a wedyn cyfle i fwyta a sgwrsio. Gwnaed elw o tua £160 i'r Gymdeithas.

Y nos Fawrth canlynol bu rhaid newid y rhaglen ac ar fyr rybudd a daeth John Lyons atom yn westai arbennig Llywydd y Gymdeithas. Blwyddyn yn ôl cawsom hanes ei fywyd hyd iddo ddechrau ar ei yrfa yn blismon yng Ngogledd Cymru. Derbyniodd hyfforddiant i fod yn blismon ym Mhen y Bont-ar-Ogwr ac wedyn dechrau ar ei yrfa yn Llandudno. Yna symud i Feirionnydd ac wedyn i Gaernarfon. Clywsom am waith yr heddlu yn y chwedegau cynnar. Tra yn Meirionnydd roedd John yn adnabod Arthur Rowlands a gafodd ei saethu yn ei wyneb yn 1961 ar y bont yn ymyl Machynlleth ac fel canlyniad bu Arthur yn ddall am weddill ei oes. Roedd John yn edmygu Arthur Rowlands a bu'n ffrind da iddo wedi'r ddamwain. Fel rhan o'i waith yn Meironnydd roedd John yn un o'r heddlu lleol a oedd yn Nhryweryn ar y diwrnod gafodd yr argae ei agor. Wedi gadael Meirionnydd symudodd i Gaernarfon ac fe aeth i wneud cwrs yn Basingstoke am flwyddyn er mwyn cael bod rhingyll. Yr oedd bod yn blismon yng Nghaernarfon yn wahanol iawn i fod yn blismon ym Meirionnydd – 'roedd yn sialens, yn enwedig ar nos Sadwrn, ond drwy'r cyfan cafodd gefnogaeth y rhan fwyaf o bobl y dref. Bu sôn am ei ddyfarchiad nesaf yn y 'Liverpool Daily Post' pan gafodd ei benodi yn Arolygydd yn Heddlu Lerpwl – yr ieuengaf yno ar y pryd. Ei fwriad oedd aros yn Lerpwl am bum mlynedd yna cyn dychwelyd i Ogledd Cymru ond arhosodd am weddill ei yrfa! Roedd ei waith yn wahanol yn Lerpwl. Wedi peth amser daeth yn gyfrifol am ddiogelu y torfeydd oedd mynd i gemau pêl droed yn Anfield a Pharc Goodison. Sylweddolodd yn fuan ar faint ei gyfrifoldeb dros y cyhoedd yn y gemau yma. Yn ystod y cyfnod yma fe ofynnwyd iddo fynd fel arbenigwr i



***John Lyons***

glybiau pêl droed eraill yn Lloegr, yn cynnwys Wembley, i rannu profiad Heddlu Lerpwl ar sut i wneud y gwaith pwysig yma. I orffen ei sgwrs bu'n siarad am drychineb Hillsborough sydd, 27 mlynedd yn ddiweddarach, yn dal i fod yn loes i deuluoedd y rhai a fu farw yno.

Ar ddechrau ei sgwrs dywedodd pan mae rhywun yn ymgymeryd â swydd plismon y mae yn atebol iddo ef ei hun, i'r rai sydd yn uwch ei nag ef ac i'r cyhoedd.Braf oedd clywed am rywun oedd yn byw i'r egwyddorion yma.

'Cydnabod cyfraniad ac aberth y Cymry yn y Rhyfel Byd Cyntaf 1914-18' oedd testun darlith y Parch. Ddr. Athro D. Ben Rees ar ddiwedd mis Ionawr Dechreuodd drwy ddweud nad oes neb a gymerodd ran yn y Rhyfel mawr yn fyw bellach ond mae yn bwysig peidio ag anghofio. Roedd hi'n rhyfel fyd eang gyda gwledydd o'r tu allan i Ewrop fel Siapan ac India yn cymeryd rhan. Amlinellodd resymau am y rhyfel. Saethwyd yr Archddug Franz Ferdinand a'i wraig yn Sarajevo ar Fehefin 28ain 1914 gan Gavrilo Princip, gweriniaethwr o Serbia. Er fod arweinwyr y prif wledydd sef Kaiser Wilhelm II, Tsar Nicholas II a Siôr V yn perthyn roedd llawer o ddrwg deimlad rhyngddynt ac nid oeddynt yn ymddiried yn eu gilydd. Ymunodd 270,000 o Gymry a'r Lluoedd Arfog, y gyfrannedd uchaf (12%) o boblogaeth unrhyw un o wledoedd y Deyrnas Unedig.

Bu pwysau mawr ar y Cymry i ymuno oherwydd huodledd 'cewri' y wlad fel David Lloyd George, Parch. John Williams, Brynsiencyn a'r Brigadydd-Gadfridog Syr Owen Thomas – gŵr a gollodd ei dri mab yn y Rhyfel. Ond yr oedd gwrthwynebiad yn codi yn rhengoedd aelodau a gweinidogion yr Eglwys Anghydffurfiol – pobl fel Gwenallt, Parch. John Puleston Jones ac un o Gymry Lerpwl George M. Ll. Davies. Bu raid i'r Llywodraeth ddeddfu yn 1916 i gael mwy o ddynion abl i ymuno a'r fyddin gan fod y colledion yn fawr.

Clywsom am y *Welsh Students Company*, adran o'r *Royal Armed Medical Corps*, oedd yn cynnwys ymgeiswyr i'r weinidogaeth o'r gwahanol brifysgolion a cholegau. Ni ddisgwylid iddynt ymladd ond eto bu raid ar adegau yn Salonica. Cafodd rhai o'r Cymru eu hanrhydeddu am eu dewrder e.e. Parch. W. Cynddelw Williams, M.C. a Capten Osmond Trahaearn Deudraeth Thomas, Minffordd y D.S.O. Bu farw 37,466,409 o filwyr yn ystod y rhyfel a chafodd llawer eraill eu 'hanafu yn yr ymladd neu gan nwy. Bu farw degau o filoedd o filwyr bob diwrnod mewn ymgyrchoedd gwaedlyd fel y Somme ac Ypres. Darllenwyd llythyrau o faes y gâd yn y ddarlith a oedd yn ddirdynnol. Gorffennwyd trwy gofio marwolaeth Hedd Wyn, achlysur y byddwn yn ei gofio y flwyddyn nesaf can mlynedd ers Eisteddfod y gadair ddu ym Mhenbedw.

Dyma englyn a ysgrifennodd Hedd Wyn wedi marwolaeth un o'i ffrindiau yn Ffrainc ac mae'r englyn ar gofgolofn Hedd Wyn yn Nhrawsfynydd.

*Ei aberth nid â heibio - ei wyneb*
*Annwyl nid â'n ango*
*Er i'r Almaen ystaenio*
*Ei dwrn dur yn ei waed o.*

# TUDALEN I BASIO AMSER
# o dan ofal Ken Williams

## ANAGRAMAU – PWY YDYNT?

1. “Y PLENTYN, AC”
yna yn tyfu i fyny i ddod yn un o’n emynydd gorau; nid ei enw llawn, ond mae lle iddo yma!

2. “A’I ’MLITH GROEG YW” –
Na, fel yr uchod, yn grefftwr yn ei waith, a’r anrhydedd i fod y cyntaf yn C.FF.

3. “DEWN DROS AMSER YW” –
Ei adnabod, fel y gŵr a wnaeth ei orau i annog ein hiaith.

## GWNEUD GEIRIAU

| | | |
|---|---|---|
| LL | Y | N |
| D | A | N |
| E | R | W |

O’r llythrennau yn y bocs ar y chwith gwnewch allan eiriau yn cynnwys o leiaf pedair llythyren. Mae un gair yn cynnwys y cyfan; hint fechan “Tyfiant yn y clawdd”. Mae yma dros hanner cant. Y llythrennau i’w defnyddio unwaith yn unig.

***(Atebion ar dudalen 11)***

---

## PWY YDYNT

1. Mae ei enw yn dal yn boblogaidd (5)
2. Enw go hyfryd i ferch, all fod yn enwog hefyd (5)
3. Sengl y mae o hyd, druan! (6)
4. Merch annwyl sydd o hyd yn onest a didwyll (5)
5. Mae dy enw yn gyfarwydd inni …(5)
6. …ac wedyn, yn parhau yr un (5)
7. Yn y diwedd, mae hi o hyd i fod gydag Arthur (3)
8. Mae hwn i’w weld yn aml yn enw da i Gymru (6)
9. Yn awr, mae’n barod i fod yn fachgen (5)
10. Dyn pwysig yng Nghymru – un o’r Joneses; ac rwyn siwr fod pawb yn gwybod pwy yw! (6)

***(Atebion ar dudalen 11)***




*Sŵn-y-Dail*
*30 Ffordd Pen-y-Bryn*
*BAE COLWYN,*
*Conwy.*
*LL29 6AF*
*Ffôn: 01492 534115*
*post@cormaelgwn.cymru*
1af o Chwefror, 2016



*Annwyl gyfeillion,*

Ar ddiwedd y mis hwn, bydd Trystan Lewis yn rhoi'r gorau i arwain Côr Meibion Maelgwn, ar ôl pymtheg mlynedd o arwain. Bu'r côr yn fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ddwywaith yn 2005 a 2009 yn ogystal â bod yn y rownd derfynol corau meibion y BBC. Yn ystod y cyfnod hwn, cododd y côr filoedd o bunnau i achosion da o dan ei arweiniad, yn ogystal ag ymweld a Chanada ac Efrog Newydd, Slofenia a Llydaw a'r Almaen.

Gwasanaethodd cylch ehangach hefyd; bu'n arwain corau meibion unedig gogledd Cymru ddwywaith yn theatr pafiliwn y Rhyl, corau meibion unedig Ceredigion ym Mhontrhydfendigaid, a chyngerdd corau unedig yn yr Amwythig.

Mae Trystan yn rhoi'r gorau i'r côr er mwyn sefyll fel ymgeisydd i'r Cynulliad ar ran Plaid Cymru yn Aberconwy. Ei olynydd yw Mererid Mair Williams o Gaernarfon, a fu yn un o gyfeilyddion y côr, ond sydd bellach yn cymryd yr awennau.

Rydym yn eich gwahôdd, fel côr, i gyngerdd Gŵyl Ddewi arbennig a chyngerdd ffarwel Trystan Lewis, yng nghapel Seilo, Llandudno, ar nos Sul, 28 Chwefor am 7y.h. Yr artistiaid fydd Côr Meibion Maelgwn, Côr Meibion Aberystwyth, Meinir Wyn Roberts, Caernarfon, (soprano), Elgan Llŷr Thomas, Llundain a Llandudno, (tenor), gyda Catherine Barnett (piano) a Graham Eccles (organ) yn cyfeilio.

Mae tocynnau yn £10 a gellir eu cael o Siop Lewis, Llandudno, (01492) 877700 neu gan yr ysgrifennydd, Gwyn R. Williams ar y cyfeiriad uchod.

Gobeithiwn eich gweld ar 28 Chwefror er mwyn inni gael cyngerdd gwerth chweil.

*Ar ran Côr Meibion Maelgwn,*
*R. Arfon Williams,*
*Cadeirydd.*

## CYMDEITHAS CYN-DDISGYBLION YSGOL ABERBANC

*23/01/2016*
*Annwyl Ffrindiau*

Er mwyn cofio am addysg yn ardal Aberbanc mae Cymdeithas Cyn-ddisgyblion Ysgol Gynradd Aberbanc yn awyddus i greu cof parhaol ar ffurf llyfr.

Diwedd y gân yw'r geiniog wrth gwrs. Ni fedrwn gyhoeddi'r llyfr os na chawn swm sylweddol o arian i dalu'r wasg ymlaen llaw.

Medrwch ein helpu trwy dalu £10 ymlaen llaw. Byddwch yn sicrhau copi o'r llyfr ac yn cael eich enwi ar restr y tanysgrifwyr..

Gwnewch sieciau yn daladwy i **Aduniad Aberbanc**

Danfonwch eich cyfraniadau at y
Trysorydd: Owenna Davies, Cledlyn, Ffostrasol, Llandysul, Ceredigion SA44 4TF

---

## PENBLWYDD HAPUS NAIN

***Llongyfarchiadau a phen-blwydd hapus i Nain, sef Nan Hughes Parry, Woolton. Oddi wrth eich wyrion a'r wyresau***

## Cinio Gŵyl Ddewi Cymry Lerpwl

**ar nos Sadwrn, 27 Chwefror 2016**
**yng Nghlwb Golff Woolton am 7.30 o'r gloch**



Gŵr gwadd: **Mr. Winston Roddick, QC, Caernarfon**
(Comisiynydd yr Heddlu Gogledd Cymru)
Llywydd: **Dr. D. Ben Rees**
*Y mae'r tocynnau £25 ar werth gan aelodau Cymdeithas Lenyddol Bethel a Chymdeithas y Cymry neu trwy benatgarthdrive@talktalk.net*
*Croeso i bawb*

## CORNEL Y TRYSORYDD

### Mawrth 2016



| | |
|---|---|
| Mrs Margaret Tee, Y Bala | £10.00 |
| Cyngor Llyfrau Cymru, Aberystwyth | £50.00 |
| Dr Arwel Roberts, Ormskirk | £20.00 |
| Mr Ron Gilford, Manceinion | £10.00 |
| Rhodd Eglwys Bethel, Lerpwl | £100.00 |
| **Cyfanswm** | **£190.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

*Darn o Hunangofiant Brian Thomas*

# FY NGYRFA FEL ATHRO YN LERPWL

## Pennod 6
## Ysgol Arbennig Princes, Toxteth

*Prifathro E. Brian Thomas, Y.H.*

Ar ddiwedd fy ngyrfa fel athro, sef y pymtheg mlynedd olaf bum yn Brifathro ar Ysgol Princes yn Selborne Street. Mae'r stryd yn rhedeg yn ochr yn ochr ac Upper Parliament Street ar ôl pasio y Rialto. Gwaith hyfryd oedd gweithio gyda'r plant oedd ag anghenion dwys. Roedd tua tri chwarter o'n plant yn dioddef 'Downs Syndrome', a'r gweddill gydag anghenion gwahanol yn cynnwys rhai efo Syndromau gwahanol arnynt, rhai yn dioddef o Cerebral Palsy, rhai a Syndromau ar y Cyhyrau, fel Sclerosis neu yn Dystrophy. 'Roedd hi'n bleser o'r mwyaf casglu tîm o athrawon a gofalwyr eraill o'n cwmpas, yn meddu teimladau melys tuag at blant a oedd ac anhawsterau dwys arnynt. Ein man cychwyn ni oedd CARIAD. Os gallwn gael y gyfathrach rhyngom ni a'r plant yn iawn, yn un o barch rhyngom ac at ein gilydd, os oedd yn gydradd felly 'roedd yr ysgol yn datblygu yn fangre hapus i ddod iddi i'r plant a'r oedolion. Eto ein gwaith oedd datblygu gallu a phersonoliaeth bob plentyn o dan ein gofal. A galluogi'r plant i ddatblygu ac aeddfedu yn eu hamser eu hunain. Ac fel daeth oed symud i Addysg Uwch yn bedair ar bymtheng oed 'roeddem yn cael mwy o amser i gyrraedd gwahanol dargedau.

'Roedd anghenion dwys ar y plant i gyd a'n gwaith ni oedd ceisio goresgyn eu hanhawsterau a'u gwneud mor hunan feddiannol, ac mor hunan hyderus, ac a oedd yn bosibl. 'Roedd pob plentyn gyda man cychwyn gwahanol, gydag anghenion gwahanol, felly 'roedd angen rhaglen bersonol gan pob plentyn. Y mwyaf oedd eu gallu i gyd-fyw yn hapus gyda'u dosbarth, gyda'u cyd-ddisgyblion a chyda'u rhieni, yr hapusaf 'roeddent yn gallu bod. A'r hapusaf yr oeddynt yn gallu ymuno a'r gymdogaeth pan nad oeddent yn yr ysgol.

Rhaid imi ddweud fod yr ysgol yn hynod hapus, ac 'roedd gennym awyrgylch ddeniadol iawn a chyd-weithiwn yn agos iawn a'r rhieni. Byddwn yn aml iawn yn cael Gweithgareddau Cymdeithasol ynghyd a'r rhieni a'n ffrindiau lleol. Byddai Dawnsiau, Cyngherddau, Partïon a Bingo Misol yn cymeryd lle yn Neuadd yr Ysgol. Mae bod yn riant i blentyn ac anghenion dwys, yn bwysau trwm ddyddiol i bob Mam ac yn cael effaith ar



bob un yn y teulu. Mae'r gofynion a'r poenau yn parhau ac yn ddiddiwedd. Mae'r Fam, ar y mwyaf, yn gorfod, o raid, cysegru ei hysbryd i ofalu am ei phlentyn. Fy mhrofiad i, dros amser hir, ydyw fod yn rhaid i briodas, neu bartneriaeth, fod yn gryf iawn i oresgyn y pryderon. Cyffredin iawn oedd cael ysgariad yn digwydd o achos y pwysau a'r poenau. Yn amlach na dim y Fam fyddai'n cael ei gadael i ofalu am y teulu. Wedyn byddai'r pwysau o fod ar ei phen ei hun yn ddirwyol iawn i'w hysbryd a'i medddwl. Hanes Natalie a'i Mam, hanes Sandy a'i Fam, hanes David Cooper a'i Fam, hanes Carl Bond a'i Fam.

### Ysgol George oedd hi

Fy amser hyfrytaf bob blwyddyn, fyddai gweld plant iau y flwyddyn nesaf yn dod i dreulio diwrnod gyda ni, i gael blas ar yr ysgol a'i hawyrgylch. Byddent yn dod mewn Mini-Bus o Ysgol Mencap, a'r dyddiau hynny byddai y rhan fwyaf ohonynt yn dioddef o Downs Syndrome. Yr anabledd hawsaf i gwrdd a'u hangenion. Mae'r plant yn rhai mor hawddgar a hapus eu natur. Maent yn hapus eu meddwl a'u pleser mwyaf yw plesio oedolion. Un o'n swyddogaehtau pwysicaf oedd eu dysgu i wneud cysylltiad derbyniol ac oedolion. 'Roeddent i gyd yn ddi-wahan eisiau cofleidio pawb i ddweud 'Helo'. Pan oeddent yn blentyn bach 'roedd hyn yn dderbyniol iawn, ond fel y byddent yn tyfu yn fwy ac i'w harddegau, nid oedd mor dderbyniol. O'r oed saith byddem yn dysgu iddynt ysgwyd llaw yn ffurfiol yn hytrach na chofleidio. Byddai yn cymeryd blynyddoedd iddynt ddod yn hollol gyfarwydd â hyn. Hawdd oedd cwrdd ac anghenion y Downs, a chymharol hawdd yw eu integreiddio i fyd addysg cyffredin. Ychydig iawn ohonynt sydd yn cael eu geni y dyddiau hyn, am fod prawf i'w gael i'w canfod yn y groth yn fuan iawn yn y famolaeth. Wedyn mae dewis ar gael, un a'i erthylu yr embryo neu canlyn ymlaen a'r enedigaeth. Mae llawer o'r merched yn awr yn dewis ail-genhedlu yn hytrach. Erbyn hyn mae llawer iawn mwy o blant a elwid yn Awtistig yn cael eu cenhedlu, neu yn datblygu i'r cyflwr hwnnw. Nid oes neb yn gwybod yn iawn paham mae'r cynnydd mawr wedi digwydd, ac mae arian helaeth yn cael ei wario ar ymchwil i geisio dod o hyd i'r rheswm. Ond, mae integreiddio y rhain i gyfundrefn drefnus dosbarth yn anodd iawn, canys anghydffurfwyr hollol ydynt.

Mae cyd-weithio mewn dosbarth ysgol yn gofyn am sustem drefnus, cyd-ffurfiol. Mae cael un, neu hwyrach ddau blentyn i sefydlu heb effeithio ar gydraddoldeb a gallu'r dosbarth i fod yn uned iach, yn un anodd iawn. Mae methodoleg yr athrawes/athro i gadw trefn ar bethau yn cael ei brofi i'r eithaf. Ac yn hwyrach ymlaen mae cwrdd ac anghenion eu haddysg uwch, sy'n gymleth a dwys yn anodd ofnadwy.

Yn Ysgol Princes, roeddem yn ffodus ofnadwy. Cawsom ein mabwysiadu gan dafarn y "Cloc" yn Kingsland Road gyferbyn a'r Ysgol. A thros y blynyddoedd y bûm i yno fe fu iddynt hel miloedd o bunnoedd inni. Byddent yn gwarchod yr ysgol, a thra y bu mi yno, ni fu erioed yr un toriad i'r adeilad, yn wir ichwi ni chawsom erioed baen ffenestr wedi ei thorri o'r tu allan. 'Roedd yr ysgolion eraill o'n cwmpas fel St. Bernards, Granby Street a Tiber Street yn cael torri i mewn iddynt yn rheolaidd. Ond Princes oedd eu hysgol arbennig hwy ac 'roedd yn cael ei gwarchod i'r eithaf. Gŵr o'r enw George Jones oedd gofalwr y "Cloc". Gŵr du ei groen, gŵr hynod olygus dros chwe troedfedd o daldra, a chanddo ysgwyddau fel tu'n ôl bws. 'Roedd wedi bod yn y fyddin cyn cymryd trwydded y dafarn, ac efe oedd pencampwr pwysau trwm bocsio Prydain Fawr. 'Doedd neb yn cecran na thaeru efo George. Heddychwr oedd George, ond ef oedd 'in charge' yn y dalgyrch, Byddai yn dod i'r ysgol yn achlysurol un a'i i gyflwyno rhai o'i ffrindiau neu bobl bwysig y tai tafarnau, ond ni fyddai byth yn gadael heb fod ei lygaid yn llawn dagrau. Pan fyddai gennym noson gymdeithasol o unrhyw fath byddai ef a'i ffrindiau yn ein cefnogi. Cofiwch byddent i gyd yn cyrraedd fel y 'Blues Brothers' efo'u 'molls', ar eu breichiau, wedi eu pwyso i lawr gan aur a 'bling'. 'Roeddynt yn werth eu gweld. Ysgol George oedd hi.

Un diwrnod cawsom wybod fod George wedi bod o flaen ei well, am dderbyn nwyddau oedd wedi cael eu dwyn, a chafodd ddedfryd o ddwy flynedd yn y carchar. Ymhen ychydig fisoedd , daeth ei bartner 'Mrs. Jones', merch olygus gwallt melyn, gyda siâp corff nid anhebyg i 'Marilyn Monroe', im gweld ar ofyniad Cyfreithiwr George, gyda llythyr i mi ei ddarllen. Gofyn oedd y llythyr, a fuaswn, fel Ynad, yn ysgrifennu llythyr at Governor Carchar Walton yn erfyn drosto, ac amlinellu gwerth George i'r Gymuned ac i'r Ysgol. Ni ddywedais gelwydd, ond dweud fod y gymuned yn fregus, ac yn dirywio heb ddylanwad George. Eglurais fod y gymuned i gyd wedi cymeryd

gwarchod yr ysgol dan eu hadain, ac mai George oedd yn gyfrifol am hyn. Ymhen ychydig wythnosau, cafodd George ei ryddhau ar "Governors' Parole". Wel ichwi, ar ôl hynny 'Iesu Grist' oedd fy enw.! Os oedd yn hael gynt 'roedd arian yn dylifo i'r ysgol ar ôl hynny. Os oeddym yn dweud fod angen rhywbeth arnom byddai yn cyrraedd yr ysgol mewn dim amser. Cafodd Hilda a mi ein gwahodd unwaith i feirniadu mewn noson *"Talent Night"*. Roedd talentau lleol wedi cael eu gwahodd i gystadlu am symiau o arian sylweddol i ddangos eu talentau. 'Roedd y lle dan ei sang a phob canwr neu chwareuwr yn cael eu cymeradwyo yn frwd. Dywedais wrth Hilda mai'r enillwr oedd yr un oedd yn cael y gymeradwaeth fwyaf, os mai nhw oedd y gorau neu beidio. Wedi rhoi'r ddedfryd, cael ar ddallt mai ni oedd y beirniaid gorau oeddynt wedi eu cael yno erioed. Byddem yn cael gwadd i wahanol ddigwyddiadau yn y dafarn, a byddai Hilda yn cael ei thrin fel Princess Margaret ganddynt.

Fodd bynnag, aeth George am driniaeth ar ei arenau i Ysbyty Broadgreen a bu farw ar y bwrdd triniaeth. 'Roedd hyn yn sioc fawr i bawb yn y cyffiniau a'r gymdogaeth i gyd yn galaru. Ac rhaid imi'n awr sôn wrthych am ei ddiwrnod angladd. Ar ddiwrnod ei gladdu cawsom ein gwadd gan ei bartner i fod yn rhan o'r teulu. Mynd yn gyntaf i'r dafarn, a'r ystafell yn llawn dop o flodau a blethdorchau na ellid eu cyfrif. Mynd wedyn i gapel cyfagos, lle 'roedd cannoedd o bobl wedi hel o gwmpas yr adeilad am nad oedd lle iddynt y tu mewn. Y gwasanaeth yn cael ei drosglwyddo i'r gynulleidfa tu allan. Mynd wedyn mewn confoi hir drwy'r styrdoedd i Amlosgfa Springwood, a symud at y bedd. Cafodd yr arch ei gollwng i'r bedd, ac wedyn daeth dau fachgen at lan y bedd, a gollwng pentwr o fedalau a chwpanau ar yr arch. Ar yr un pryd dyma gar mawr du yn tynnu at ochr y bedd, a 'chauffer' tal mewn siwt lwyd a chap pig yn dod allan ac yn agor drws tu ôl y car. Dyma ddynes dal osgeiddig olygus dros ben, wedi ei gwisgo mewn dillad duon, ac het ddu a 'veil' dros ei hwyneb, yn dod allan ac yn cae1 ei hebrwng at y bedd, lle y gollyngodd un rhosyn hir coch i mewn i'r bedd. Sefyll am enyd a'i phen i lawr, yna troi ar ei sawdl a mynd yn ôl i'r car, ac 'Off' a hi. Pawb yn syllu a'u llygaid ar briciau. Ni chlywsom ar y pryd nac wedyn pwy oedd y ferch yma, ond 'roedd yn union fel petasai o un o ffilmiau James Bond. Dywedais wrth Hilda am gofio mai felly yr oeddwn i eisiau mynd pan ddaw y dydd!

Daeth tafarnwyr newydd i'r 'Cloc', ond 'roedd y gyfathrach gynt wedi ei cholli, a ni fu wedyn yr un fath rhyngom, er byddent yn dal i hel arian a gwarchod y lle. Nid oedd y teimlad yr un fath. Gŵr unigryw oedd George, dim llawer ohonynt mewn pwys!

## Terfysg Toxteth

'Rydym i gyd yn cofio'r 'Riots', Toxteth yn 1981. Cafodd y Rialto ei falurio. Cafodd Banc y Midland ar waelod Upper Parliament Street ei wagio, a neb yn barod i ddweud faint o arian a gollwyd. Cafodd y Dairy ar Upper Parliamen Street ei rhoi ar dân, ynghyd a'u stoc o loïau bach. Bu raid gwagio, dan frys, amryw o gartrefi gofal yn y cyffuniau. Cafodd dwy archfachnad eu gwagio gan ladron. Ynghanol y ffwrnas boeth oedd Ysgol Princes, fwy neu lai ar draws y ffordd i Granby Street. 'Roedd pethau wedi bod yn ddrwg yn yr ardal er peth amser cyn hynny. Byddem yn clywed am rai o'r digwyddiadau yn ddyddiol. Weithiau byddai moduron yr heddlu wedi cael ei dynnu i un o'r strydoedd yng nghefn Granby yn bwrpasol. Byddai y plismyn wedi eu tynnu allan o'r cerbyd, ac wedyn byddai'r cerbyd wedi ei roi ar dân. 'Roedd yn wir fod Granby Street ar y pryd yn 'No Go Area' am gyfnod. Hyd yn oed yn y dydd byddem yn gweld dau blismon, a dau gi plisman, yn cerdded heibio i Granby heb fynd i lawr y stryd. Byddai llanciau ifanc yn rasio ceir i fyny ac i lawr Selbome Street, ac yn gwneud 'handbrake turns' nes byddai mwg mawr yn dod o'r olwynion! Byddem yn disgwyl iddynt orffen cyn byddai'n saff i'r plant fynd adref. Fodd bynnag pan ddaeth penwythnos gwaethaf y 'riots', 'roedd criw o blant yr ysgol wedi mynd ar drip i Llundain gyda rhai o'r athrawon, ac yn cyrraedd yn ôl pan oedd wedi noswylio. 'Roedd rhaid cael osgordd i fynd a'r plant i'w tai, y rhai oedd yn byw mewn mannau agos i'r terfysg. Nid plismyn oedd yn eu tywys i'w cartrefi, ond dynion lleol oedd yn cael caniatâd i basio'r llinellau terfyn rhwng y terfysgwyr a'r llengau o blismyn. 'Roeddem yn hynod falch o'u cael i gyd adref yn saff.

Er fod y terfysg i gyd yn digwydd o gwmpas yr ysgol, ni chafodd hyd yn oed ffenestr ei thorri. Y rheswm am hynny, cawsom wybod wedyn, oedd fod neges wedi mynd allan o'r 'Cloc': "Anyone touch the School, we'll chop their hands off!" Ac 'roeddent yn meddwl beth oeddynt yn ei ddweud. Bu i'r ysgol gau am un diwrnod yn unig drwy gydol yr anghydfod. Dyna ichwi oedd gallu a phwer ffyddloniaid tafarn y 'Cloc' oedd yn edrych ar ein holau. Dro arall, ychydig cyn imi ymddeol; yr athrawon, a'r bobl oedd yn gyrru y bysiau a gludai rhai o'r plant i'r ysgol, yn dod ataf ac yn cwyno fod yr holl drafnidiaeth, ceir a thacsis a oedd yn hel o gwmpas tŷ 'crac' rownd y gornel o'r ysgol, yn creu perygl, ac yn debyg o achosi damwain rhyw ddiwrnod. Cefais air ynglŷn â'r achos gydag 'Community Bobby' yr ardal. Dywedodd, "Leave it to me, I'll have a word with Mr. Showers." Yn wir ichwi o fewn tri niwrnod, 'roedd y 'crac' wedi ei gau. A chawsom ni ddim trafferth wedyn.

## Newid Mawr

Wedyn daeth newid mawr i fyd Addysg. 'Roedd holl wariant y wlad yn cael ei rhoi dan y chwyddwydr, gan gynnwys Addysg Arbennig. Daeth mudiad cryf, fod eisiau uno plant yn eu hysgolion lleol. Daeth sustem newydd o gategreiddio plant yn ôl eu gallu i rym, a'u gosod mewn rhestri fel y gellid penderfynu pa ysgolion oedd yn cael trafferthion. 'Roedd rhaid mynd a'r plant drwy wahanol raddau, a elwid y 'Stages'. Daeth hyn a gofyniadau mawr ar athrawon a oedd yn gweithio yn ysgolion y dinasoedd. Nid oedd y mesuriadau yn glir ac 'roeddynt yn sicr yn anheg a rhai ysgolion. 'Doedd y plant galluocaf yn ein hysgolion ddim yn gallu cyrraedd 'Stage One' o'r gofyniadau newydd. A 'doedd neb yn y Gwasanaethau Addysgol Cenedlaethol wedi meddwl am y peth. Felly treuliasom oriau lawer mewn cyfarfodydd wythnosol i drefnu pum adran o dan eu 'Stage One', a'u galw yn 'Leading to Stage One'. Ond 'roedd y sefyllfa yn mynd yn waeth a'r gofyniadau yn mynd yn wirion. Erbyn i'm swyddfa lenwi yn llawn dop a llyfrau a pamffledau, 'roeddwn wedi cael llond bol. Cyfarwyddiadau newydd cyrraedd bob wythnos bron ac yn newid canllawiau yr wythnos cynt. Yn y diwedd penderfynais y byddai yn gallach imi ymddeol, yn hytrach na chwffio cyfundrefn oedd yn mynd i newid fy myd, doed a ddêl. A dyna ddigwyddodd, tra'r oeddwn yn dal yn gall, a chyda meddwl clir, bu imi ymddeol yn 60 oed. Gadael y byd addysg i rhywun ieuengach a oedd yn barod i frwydro dros eu daliadau, a gwybod y byddai rhaid ryw ddydd, iddynt gwffio yr un brwydrau a gwffiais innau. Pan fyddaf yn awr yn cyfarfod hen gyfeillion, nid oes yr un ohonynt yn meddwl fod y newidiadau er gwell. 'Cariad 'ac 'Hapusrwydd', oedd ein 'base line' ni. Ysgwn i faint o ysgolion sydd a'u man cychwyn nhw yn cynnwys y ddau air yma heddiw?

---

**[Diolchwn i Brian Thomas am yr holl benodau diddorol a gyhoeddwyd yn *Yr Angor* sydd yn rhoi darlun byw iawn o Athro a Phrifathro cydwybodol a gyflawnodd wyrthiau yn ninas Lerpwl – Gol.]**

## ATEBION

**Anagramau - Pwy ydynt?(1)**

1. Pantycelyn.
2. Gwilym Hiraethog
3. Syr O. M. Edwards

**Gwneud geiriau**
**Y Prif air - DRAENLLWYN**

Aden, Aderyn, Anwr, Anwyr, Aren, Awyr, Awyren, Annwyd, Enwad, Enwyn, Enllyn, Erwyd, Ewyn, Dawn, Derw, Derwyn, Dryll, Dwrn, Dwyn, Dyna, Dryw, Darllen, Dwyen, Draen, Deall, Llawr, Llawer, Llanw, Llawen, Llawnder, Lland, Llwdn, Llwyarn, Llwyd, Lledr, Lledryn, Lledwyr, Llewa, Llwyn, Llenad, Llydan, Llydawr, Nawr, Nawn, Nwyd, Newyn, Rwan, Wedyn, Ynad, Ywen.

**PWY YDYNT (2)**

1. YN DAL - DYLAN.
2. ENW GO - ENWOG - OGWEN
3. GLENYS
4. NESTA
5. DY ENW - WENDY
6. WEDYN - WENDY
7. RUTH
8. WELD YN - DELWYN
9. YN AWR - ARWYN
10. AC RWYN - CARWYN

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2016. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor*.
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

**• RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Ebrill 2016 –** erbyn bore Sadwrn, 27 Chwefror, 2016 – neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive. fsnet.co.uk

**ii) Rhifyn Mai 2016** – erbyn bore Iau, 31 Mawrth, 2016 – y lluniau, adroddiadau etc.

**iii) Rhifyn Mehefin 2016 –** erbyn bore Llun, Mai 2, 2016 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn ar Mai 3, 2016.

**• Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn*
*07729 960484*

# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors Est 1905

# HWNT AC YMA

## URDDO LLYWYDD NEWYDD HENADURIAETH GOGLEDD DDWYRAIN



*Elwyn Evans - Cyn-Lywydd*

Urddwyd y Parchedig Huw Powell Davies yn Llywydd newydd Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain yn ystod cyfarfod o'r Henaduriaeth yn Eglwys Bethesda, Yr Wyddgrug nos Fercher, Ionawr 20fed. Daeth tymor ei ragflaenydd, Elwyn Evans o Eglwys Noddfa, Oaker Avenue, Manceinion i ben wedi ei anerchiad ymadawol - anerchiad oedd yn crynhoi ei brofiad dros y flwyddyn fel llywydd ac yn amlinellu'r her o'n blaenau. Diolch a phob bendith i'r ddau ohonynt.



*Urddo y Llywydd Newydd*

## Penblwydd Nan Hughes Parry


***Ar ddiwedd Ionawr 2016 dathlodd Mrs Nan Hughes Parry ei phenblwydd yn 80 mlwydd oed a chafodd aml ddigwyddiad i ddathlu'r garreg filltir – taith i'r theatr yn Llundain, parti gyda'i anwyliaid, cyfarchiad o sêt fawr Bethel lle mae'n cyflwni gweindogaeth o ffydd a charedigrwydd, ac yng nghymdeithas y Cymry lle mae mor ffyddlon a dibynadwy, clod gan y Llywydd, Roderick Owen. Paratodd Norma deisen penblwydd i Nan.***




*Parti Nan*

## ALUMUNI PRIFYSGOL CYMRU (CANGEN LERPWL)

***Ar Nos Lun, 25 Ionawr cafwyd noson i'w chofio yn y Ganolfan pan ddaeth Sandra Parr i'n diddori gyda hanes ei bywyd gyda Philharmomic Orchestra. Llywyddwyd gan Dr. Pat Williams***



***D. Ben Rees a Sandra Parr.***

***Y mae Sandra Parr wrth ei bodd gyda hanes lleol.***



*Rhan o gynulleidfa Sandra Parr*